Llywodraeth Cymru

# Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

## Craffu Cyffredinol

Chwefror 2026

Mae ein hymrwymiad yn parhau i drechu tlodi ac i leihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi cyflawni amrywiaeth o fentrau i gynyddu incwm aelwydydd ac i chwalu'r rhwystrau i gael cymorth. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar *Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024*, sy'n gosod amcanion clir i atal ac i liniaru tlodi plant. Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan ein Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol (2025–2029), a ddiweddarwyd yn 2024, a'n Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, sy'n cryfhau gweithio mewn partneriaeth, yn cefnogi cyrff cyhoeddus ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.

Rydym hefyd yn parhau i wreiddio 'integreiddio o'r diwrnod cyntaf' i bobl sy'n ceisio noddfa, cyflawni Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2022-2026), gweithio'n agos gyda'r trydydd sector, a sicrhau bod gwasanaethau datganoledig yn cael eu darparu'n deg ac yn gyfartal, gan gynnwys i'r rhai sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae atodiad ynghlwm sy'n rhoi sylw i'r materion eraill roeddech chi wedi'u codi yn eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr.

# Cynnwys


**1. Trechu tlodi ........ 3**

**2. Lleihau anghydraddoldebau ........ 7**

**3. Cydlyniant Cymunedol ........ 11**

**4. Mudo a Noddfa ........ 13**

**5. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ........ 16**

**6. Y Trydydd Sector a Gwirfoddoli ........ 19**

**7. Cyfiawnder Troseddol ........ 21**

**8. Defnydd o dystiolaeth ........ 24**

# 1. Trechu tlodi

Ers 2022, rydym wedi buddsoddi dros £7bn ar draws y llywodraeth i gefnogi aelwydydd yng Nghymru drwy raglenni i leddfu pwysau ariannol, i helpu i gynyddu incwm ac i gadw arian ym mhocedi pobl. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn ein Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg, mewn Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd, yn ein rhaglen Bwndeli Babi, yn ein Grant Hanfodion Ysgolion, yn ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, mewn teithio fforddiadwy, a thrwy'r cymorth argyfwng a ddarperir gan ein Cronfa Cymorth Dewisol. Mae ein hymgyrchoedd Cronfa Gynghori Sengl a Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi yn sicrhau bod teuluoedd yn hawlio popeth mae ganddynt hawl iddo.

## Cynyddu incwm

Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi cyflawni amrywiaeth o fentrau llwyddiannus i gynyddu incwm aelwydydd drwy chwalu rhwystrau, codi ymwybyddiaeth, cynnig cymorth ymarferol, a symleiddio ceisiadau. Ers 2021, mae ein hymgyrch flaenllaw Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi wedi annog 90,000 o bobl, llawer ohonynt na fyddent fel arfer yn gofyn am gyngor, i gysylltu ag Advicelink Cymru, sydd wedi golygu eu bod yn hawlio £30 miliwn mewn incwm ychwanegol. Ochr yn ochr â hyn, mae dros 7,000 o weithwyr rheng flaen wedi mynychu ein hyfforddiant am ddim ar gynyddu incwm. Mae hyn wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u hyder i helpu defnyddwyr gwasanaeth i hawlio'r hyn mae ganddynt hawl iddo.

## Symleiddio Budd-daliadau Cymru

Mae Siarter Budd-daliadau Cymru, a lansiwyd ym mis Ionawr 2024, yn sail i'r gwaith hwn, ac mae'r ffaith bod pob awdurdod lleol wedi'i mabwysiadu yn adlewyrchu eu hymrwymiad ar y cyd fel ein prif bartneriaid cyflawni. Yng ngham un, rydym yn cyflwyno dull "adrodd eich stori unwaith" ar gyfer tri budd-dal allweddol yng Nghymru: Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim, a'r Grant Hanfodion Ysgol. Rydym yn sicrhau bod awdurdodau'n deall sut gallant benderfynu ar yr hawl i gael y budd-daliadau hyn drwy ddefnyddio un set o wybodaeth a roddir gan unigolyn. Roedd yr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn ein cynllun peilot gyda'r cwmni dadansoddi data Policy in Practice hefyd wedi cael gwybodaeth werthfawr, yn enwedig o ran eu pwerau i rannu ac i ailbwrpasu data i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau Cymru.  Maent wedi gallu defnyddio adnodd i ganfod ac i dargedu preswylwyr sy'n colli allan ar yr hyn mae ganddynt hawl iddo, a chynnal ymgyrchoedd hawlio budd-daliadau sy'n targedu aelwydydd nad oeddent yn gwybod bod ganddynt hawl i gael cymorth.

## Cyllid i Wasanaethau Cynghori

Mae gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl yn ganolog i'n gwaith cynyddu incwm. Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Medi 2025, roedd y gwasanaethau wedi helpu pobl i hawlio £213 miliwn o incwm ychwanegol a dileu £71 miliwn mewn dyled. Rydym wedi dyrannu £36 miliwn dros dair blynedd (Ebrill 2025–Mawrth

2028) i gynnal y gwasanaethau hanfodol hyn. Mae'r cyllid hirdymor yn golygu bod modd cynllunio gwasanaethau'n well, yn cefnogi llesiant staff drwy gontractau cyflogaeth hirach, ac yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

## Cynhwysiant Digidol

Bydd *Cynhwysiant Digidol Cymru*, ein rhaglen cynhwysiant digidol newydd, a lansiwyd y llynedd, yn rhoi cyngor a chymorth cenedlaethol i sefydliadau ledled Cymru ar gynhwysiant digidol a'r safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn ogystal â chyllid i sefydliadau ar draws pob sector i ddarparu atebion sy'n cael eu datblygu a'u darparu'n lleol i helpu i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu ymgysylltu â thechnoleg ddigidol ac elwa ohoni. Mae'n adeiladu ar ein rhaglen flaenorol, *Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant*, a gefnogodd mwy nag oddeutu 246,000 o bobl i ennill sgiliau digidol sylfaenol, hyder a chymhelliant rhwng mis Gorffennaf 2019 a 30 Medi 2025.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi darparu cyllid i sefydliadau ledled Cymru i gynnal prosiectau peilot i fodloni'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ac i gofnodi'r effaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd ledled y DU drwy gomisiynu ymchwil a gweithredu prosiectau i archwilio'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol gyda dau adroddiad ymchwil a sefydlu diffiniad o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer Cymru.

## Cynhwysiant Ariannol

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cynilo a benthyca moesegol ac mae wedi parhau i gefnogi undebau credyd i dyfu ac i feithrin gwydnwch. Mae'r cymorth wedi parhau drwy'r cynllun ehangu benthyciadau (£3.4m yn ystod tymor y Senedd hon), cyllid i dri ar ddeg o brosiectau refeniw (gan gynnwys cynilwyr ysgolion, cynilwyr carchardai, mentrau cyflogres, a marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol), cyllid cymorth dyletswydd defnyddwyr a chyllid cyfalaf. Mae'r cynllun ehangu benthyciadau ei hun wedi galluogi mwy na 6200 o fenthyciadau fforddiadwy ychwanegol i bobl y byddid fel arall wedi methu cael credyd moesegol, gyda'r benthyciadau'n werth dros £3.6m.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyd-gynhyrchu ac yn gyd-berchen ar y Cynllun Cyflenwi Llesiant Ariannol ar gyfer Cymru (gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, 2020-2030, sy'n nodi mentrau ymarferol y gellir eu cyflawni sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i bobl drwy eu helpu i wneud y gorau o'u harian nawr ac yn y dyfodol.

Mae mynediad at arian parod a gwasanaethau ariannol yn dal yn bryder i lawer; dros y tymor hwn mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu a darparu atebion i gymunedau yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Cash Access UK a LINK, Fair4AllFinance a sefydliadau cyllid datblygu cymunedol sy'n darparu atebion cymunedol amgen.

Mae ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol newydd wedi sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei adlewyrchu ar lefel y DU

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei darparu'n gyson ledled Cymru, gan roi cymorth brys hanfodol i'r rhai sydd mewn argyfwng ariannol annisgwyl heb unrhyw ffordd arall o gael cymorth, a helpu pobl i symud i ffordd fwy sefydlog o fyw yn dilyn argyfwng ariannol. Mae'r gyllideb wedi codi o £27.4m yn 2021-22 i £39.5m yn 2025-26. Ers dechrau tymor y Senedd, dyfarnwyd mwy na 1.14m, sy'n rhoi cyfanswm o bron i £144m mewn grantiau. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi cael ei gwella'n barhaus, gyda swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni i sicrhau bod cynnig y Gronfa Cymorth Dewisol yn dal yn berthnasol i anghenion sy'n newid ar lawr gwlad.

## Tlodi Plant

Mae ein **Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024** yn rhoi nodau Llywodraeth Cymru i atal ac i liniaru tlodi plant yng Nghymru. Mae'n rhoi set uchelgeisiol o amcanion a blaenoriaethau y gallwn eu defnyddio i gyflawni polisïau a rhaglenni sy'n cefnogi'r canlyniadau mae arnom eisiau eu cyflawni i'n plant a'n pobl ifanc nawr ac yn y dyfodol. Cafodd **diweddariad ar gynnydd** (gan gynnwys ein **Fframwaith Monitro**) ei gyhoeddi ar 02 Rhagfyr 2025. Ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd, roeddem hefyd wedi **cyhoeddi** tystiolaeth gan bobl â phrofiad bywyd o dlodi er mwyn deall sut mae polisïau a chamau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd, neu'n methu gwneud hynny.

Ers 2023/24, dyfarnwyd mwy na £2.4 miliwn i 47 o sefydliadau drwy'r **Grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau**, gan ddatblygu partneriaethau sydd eisoes yn bodoli a chreu rhai newydd i gyflawni ymyriadau arloesol sy'n seiliedig ar leoedd.

## Tlodi Bwyd

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu mwy na £29 miliwn i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau i helpu unigolion ac aelwydydd i gynyddu eu hincwm a meithrin gwydnwch ariannol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu Partneriaethau Bwyd Lleol ym mhob awdurdod lleol ers 2022. Mae Partneriaethau Bwyd Lleol yn dod ag amrywiaeth o bartneriaid at ei gilydd o sectorau gwahanol i helpu i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan weithio gyda'i gilydd i sicrhau bwyd da i bawb. Maent yn gweithio ar draws sectorau gan ddod â phobl allweddol at ei gilydd i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol bwyd mwy cynaliadwy sydd wedi'i deilwra i'w hardal leol ac sy'n ymateb i'w hanghenion penodol.

## Tlodi Tanwydd

Cyhoeddwyd Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd diwygiedig ym mis Mehefin ac roedd yn cynnwys camau blaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Rydym yn buddsoddi mwy na £30 miliwn yng nghynllun Cartrefi Clyd Nyth yn y flwyddyn ariannol hon. Dyma ein rhaglen i helpu pobl ar incwm isel sy'n byw mewn cartrefi oer a llaith drwy gynnig mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim

ac atebion gwresogi carbon isel fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys llwybr argyfwng sy'n rhoi cymorth brys i aelwydydd heb wres na dŵr poeth.

Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024, rydym wedi buddsoddi mwy na £479 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy'r rhaglen Cartrefi Clyd. Mae mwy na 82,000 o aelwydydd wedi elwa ar fesurau yn eu cartrefi ac mae 210,800 o aelwydydd wedi cael cyngor am ddim ar effeithlonrwydd ynni. Yn 2023-24, roedd y gwelliannau hyn wedi arbed tua £595 ar fil ynni blynyddol aelwydydd.

Rydym hefyd wedi rhoi mwy na £7 miliwn o gyllid i'r Sefydliad Banc Tanwydd ers mis Mehefin 2022 i gefnogi'r gwaith o ddarparu cynllun Talebau Tanwydd a Chronfa Gwres cenedlaethol i'r rhai sydd mewn argyfwng tanwydd. Hyd yma, mae'r ymyriadau hyn wedi cefnogi 226,525 o bobl, ac roedd mwy na 93,421 ohonynt yn blant. Mae'r cyllid hwn hefyd wedi cefnogi 4,264 o aelwydydd gydag o leiaf un person hŷn yn byw ynddo.

## Canolfannau Clyd

Eleni, mae mwy na 400 o ganolfannau clyd ledled Cymru yn rhoi cymorth hanfodol i gymunedau'r gaeaf hwn, diolch i £1.5 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ymrwymiad cyllido hwn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-2026 yn adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol, gan roi cyfanswm o £4 miliwn ers 2022, ac mae wedi sicrhau bod canolfannau clyd yn gallu cefnogi cymunedau drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond yn ystod misoedd y gaeaf.

## Cwtch Mawr

Ers ei lansio ym mis Chwefror 2024, mae Cwtch Mawr, sef cynllun peilot Banc Pob Dim Cymru a redir gan Faith in Families, wedi dosbarthu dros 1 filiwn o eitemau hanfodol ar draws ardal Abertawe trwy bartneriaid dibynadwy. Dros y cyfnod o ddwy flynedd, mae'r rhwydwaith hwn wedi cefnogi 59,000 o achosion teuluol a thros 49,500 o blant a phobl ifanc. Mae'r bartneriaeth hefyd yn gweld galw parhaus gan bobl dros 60 oed (25,000 o achosion).

## Y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru

Roedd ein cynllun peilot arloesol a blaengar Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2022, yn rhoi incwm sylfaenol o £1,600 y mis (cyn treth) i 644 o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru am hyd at 24 mis ar ôl troi'n 18 oed. Daeth y cynllun peilot i ben ym mis Tachwedd 2025 pan gafodd y derbynnydd terfynol ei daliad terfynol. Mae'r gwerthusiad annibynnol yn cael ei arwain gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd gyda phartneriaid ym Mhrifysgol Rhydychen, Prifysgol Caerefrog, Coleg y Brenin Llundain, a Phrifysgol Northumbria. Mae'r gwerthusiad wedi bod ar waith ers mis Tachwedd 2022 ac wedi adrodd yn flynyddol ers 2024. Bydd y gwerthusiad yn parhau tan 2027, pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol.

# 2. Lleihau anghydraddoldebau

Ochr yn ochr â mynd i'r afael â thlodi, mae lleihau anghydraddoldeb yn ganolog i'r ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith yng Nghymru. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol, a gafodd ei ddiweddaru a'i ehangu yn 2024 i gynnwys hawliau dynol, yn rhedeg rhwng 2025 a 2029. Mae'n canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb, mynd i'r afael â gwahaniaethu a sicrhau bod hawliau dynol yn ganolog i lunio polisïau yng Nghymru. Mae nifer o gynlluniau penodol wedi'u targedu yn nodi camau gweithredu trawsbynciol sy'n cael eu datblygu gan bob tîm polisi ar draws Llywodraeth Cymru a byddant yn cyfrannu at gyflawni ein saith o Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

## Cydraddoldeb Rhywedd ac Urddas Mislif

Mae gennym ymrwymiad cryf i gydraddoldeb rhywedd ac rydym wedi bod yn falch o gefnogi Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ers 2022 i hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd drwy waith ar arweinyddiaeth amrywiol, hawliau menywod a chyfrifoldebau gofalu. Rydym hefyd wedi rhoi cyllid i Triniaeth Deg i Fenywod Cymru i gryfhau capasiti polisi ar urddas mislif, cydraddoldeb rhywedd a hawliau anabledd, ochr yn ochr â chyllid yn 2023/24 i ddiweddaru'r gwefan Endometriosis. Ers 2022, mae cyllid wedi cefnogi'r rhaglen fentora Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal, sy'n cael ei darparu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru gyda phartneriaid i gynyddu cynrychiolaeth amrywiol mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol. Mae bron i 300 o bobl wedi cwblhau'r rhaglen, sydd wedi gweld ymgysylltiad cryf yng nghymuned y rhai sy'n cael eu mentora, a chyda'r mentoriaid. Mae llawer wedi mynd ymlaen i ysgwyddo rolau arwain mewn gwleidyddiaeth, byrddau elusennau, y gwasanaeth sifil, y trydydd sector ac mewn ymgyrchoedd budd y cyhoedd. Rydym wedi mwynhau cefnogaeth bron i 200 o fentoriaid, gyda llawer ohonynt wedi bod yn gwirfoddoli dros nifer o flynyddoedd ac yn cynnwys nifer sydd wedi cael eu mentora eu hunain yn y gorffennol ac yn talu'r gymwynas yn ei blaen gan rannu eu profiad cadarnhaol o'r rhaglen. Roedd 68% o'r rhai a ddilynodd y rhaglen Pŵer Cyfartal Llais Cyfartal yn fenywod.

Rydym yn mynd i'r afael â thlodi mislif. Drwy ein grant Urddas Mislif, dyrannwyd cyllid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru er mwyn i arweinwyr Urddas Mislif allu dosbarthu cynnyrch ac eitemau cysylltiedig ar draws ysgolion, lleoliadau cymunedol, sefydliadau chwaraeon a sefydliadau trydydd sector.

## Cydraddoldeb hil a gwrth-hiliaeth

Ar ôl gweithio'n gydgynhyrchiol gyda phobl, cymunedau a sefydliadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i ddatblygu'r cynllun, yn 2022, fe wnaethom lansio ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Daeth cyllid i weithredu'r cynllun o bob rhan o'r llywodraeth i gyflawni'r ymrwymiadau trawsbortffolio.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â materion cydraddoldeb hiliol drwy Fforwm Hil Cymru, sef grŵp cynghori sy'n cyfarfod bob chwarter dan arweiniad Llywodraeth Cymru sy'n dod â sefydliadau, cynrychiolwyr cymunedol a rhanddeiliaid at ei gilydd i drafod a chynghori ar faterion sy'n effeithio ar bobl

Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Caiff ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar ei newydd wedd yn dwyn ynghyd ein hymrwymiadau Cenedl Noddfa o'n Cynllun yn 2019, y bennod berthnasol yn y fersiwn wreiddiol o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022) a'n haddewid i'r Fforwm Ffoaduriaid Byd-eang (2023) mewn pennod ddiwygiedig, sef 'Cymru - cenedl noddfa'.

Mae maes polisi Cenedl Noddfa wedi adrodd ar gynnydd yn erbyn pob cam gweithredu cysylltiedig yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae cynnydd allweddol yn cynnwys ymestyn Gwasanaeth Noddfa Cymru, gan gryfhau'r cymorth a gynigir i'r rheiny sydd wedi cael eu gorfodi i fudo. Cyllid ar gyfer y prosiect 'Tai i Ffoaduriaid' i gefnogi ffoaduriaid sydd newydd gael eu cydnabod i gael mynediad at lety 'Symud Ymlaen'.

Yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, un maes ffocws penodol yw cefnogi Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys cyllid drwy ein Grant Cyfalaf Safleoedd i wella llety a safleoedd; rydym hefyd wedi darparu amrywiaeth o gymorth arall, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth ac i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y gymuned, a ddarperir drwy Awdurdodau Lleol a thrwy'r Sefydliad Banc Tanwydd, a lansio canllawiau addysg ym mis Rhagfyr 2023 i gefnogi plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd profiad bywyd ac rydym wedi gwreiddio hyn yn ein gwaith polisi. Er enghraifft, mae ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr a phobl Roma yn elfen hanfodol o gomisiynu gwaith cenedlaethol ar ddarpariaeth dramwy ledled Cymru. Rydym wedi comisiynu rhaglen hyfforddi genedlaethol sy'n seiliedig ar wybodaeth gymunedol i wella arferion sy'n ddiwylliannol gymwys ar draws awdurdodau lleol Cymru o ran eu hymgysylltiad â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

## Cydraddoldeb anabledd

Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Hawliau Pobl Anabl deng mlynedd sy'n nodi camau gweithredu ymarferol a nodau hirdymor a gyd-gynhyrchwyd i fynd i'r afael â rhwystrau ar draws cyflogaeth, trafnidiaeth, addysg, gofal iechyd, tai, mynediad digidol a gwasanaethau cyhoeddus. Roedd gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl wedi cyfrannu at y gwaith hwn. Sefydlwyd y tasglu yn 2021 ac roedd wedi cynnull deg grŵp thematig, a oedd yn cynnwys mwy na 350 o randdeiliaid allanol a may na 200 o arweinwyr polisi'r llywodraeth, er mwyn datblygu argymhellion ar sut mae gwella bywydau pobl anabl. Mae llawer o feysydd polisi eisoes wedi dechrau cyflawni yn erbyn y camau blaenoriaeth a nodwyd yn yr argymhellion, ac rydym hefyd wedi bod wrthi'n darparu hyfforddiant Model Cymdeithasol o Anabledd i Aelodau'r Cabinet. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn sefydlu Bwrdd Cynghori Allanol a fydd yn chwarae

rhan hollbwysig yn y gwaith o lunio cyfeiriad, monitro cynnydd, a chynyddu effaith y Cynllun, gan gysylltu pobl anabl, llunwyr polisïau a darparwyr gwasanaethau. Ochr yn ochr â'r Bwrdd Cynghori Allanol, mae'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, yn darparu fforwm i randdeiliaid ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl anabl a'u teuluoedd yng Nghymru.

## Cydraddoldeb LHDTC+

Mae gennym ymrwymiad cryf i gydraddoldeb LHDTC+ a hyrwyddo cynhwysiant. Ers sefydlu'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Pride Cymru i gynnal digwyddiad blynyddol – gan werthu dros 14,000 o docynnau yn 2025 - a chynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Trefnwyr Balchder Ewrop 2023. Rydym wedi darparu cymorth i Gronfa Balchder Llawr Gwlad Cymru gyfan i gryfhau digwyddiadau Balchder llai a helpu i greu amgylcheddau diogel a chynhwysol ledled Cymru. Yn 2024-2026, mae Galop wedi darparu Gwasanaeth Cymorth penodol i ddioddefwyr ac i oroeswyr arferion trosi yng Nghymru, sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i roi terfyn ar arferion o'r fath, gan ddarparu eiriolaeth, rhwydweithio ac allgymorth a chefnogi mwy na 70 o atgyfeiriadau achos ar gyfer y rhai sydd angen cymorth arbenigol. Rydym wedi cyllido Stonewall i ddarparu rhaglenni sy'n grymuso pobl LHDTC+, yn cryfhau mudiadau cymunedol, yn lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol, yn gwella llesiant a diogelwch, ac yn trawsnewid amgylcheddau dysgu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi pobl ifanc LHDTC+ ac felly rydym wedi rhoi cyllid i gefnogi gwaith ieuenctid LHDTC+ mewn ysgolion. Mae'r Rhaglen Arweinwyr y Dyfodol, sy'n cefnogi 25 o bobl ifanc y flwyddyn, wedi'i dylunio i rymuso pobl ifanc LHDTC+ (rhwng 22 a 30 oed) o bob cwr o Gymru i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut gallwn ni greu amgylcheddau cynhwysol lle gall pob person LHDTC+ ffynnu. Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Stonewall Cymru wedi'i dylunio i gyrraedd arweinwyr uwch. Roedd dros 25 yn bresennol yn y digwyddiad diweddaraf ym mis Tachwedd 2025, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben

## Cefnogi a hyrwyddo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel rhan o dirwedd ieithyddol amrywiol Cymru; rydym wedi ymrwymo i gefnogi ac i ddiogelu ei threftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol gyfoethog. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) Mark Isherwood AS wrth iddo fynd drwy'r Senedd. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Rhanddeiliaid Iaith Arwyddion Prydain a datblygu a gweithredu Trywydd Iaith Arwyddion Prydain sy'n drywydd 18 mis sy'n nodi'r camau cyntaf tuag at ein huchelgais o greu Cymru sy'n parchu, yn hyrwyddo ac yn hwyluso Iaith Arwyddion Prydain.

## Cefnogi Hawliau Dynol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol yng Nghymru, a gydnabyddir yn adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a gwblhawyd yn 2020, ac yn ein Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol a lansiwyd yn 2025

Daeth Grŵp Llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol â rhanddeiliaid at ei gilydd i oruchwylio'r gwaith o weithredu argymhellion Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gynnar. Yn ddiweddarach, daeth y Grŵp Llywio hwn yn sail i'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol (HRAG) gan greu strwythur cynghori mwy ffurfiol a hirdymor.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol wedi darparu cyngor traws-sector parhaus ar gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys pedair ffrwd waith gysylltiedig: opsiynau deddfwriaethol; canllawiau a gallu ymarferol; diwygio'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb a hawliau dynol; ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. Cynhaliodd y Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol ei gyfarfodydd cynnar yn 2022, a chytunwyd yn ffurfiol ar ei Gylch Gorchwyl ar 7 Tachwedd 2022.  Cafwyd diweddariadau i'r aelodaeth tan fis Chwefror 2025, gan adlewyrchu'r rhaglen waith sy'n aeddfedu.

Rydym wedi cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiad yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru a fideos codi ymwybyddiaeth ar gyfer Diwrnod Hawliau Dynol. Fe wnaethom sefydlu'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol i gynnal dadansoddiad manwl fesul hawl o'r opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

# 3. Cydlyniant Cymunedol

Dros dymor y Senedd hon, rydym wedi buddsoddi yn Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Cymru gyfan, ac wedi cynyddu'r cyllid i ymateb i'r anghenion cynyddol yn ein cymunedau. Mae ein Rhaglen Cydlyniant Cymunedol, sydd wedi cael ei hymestyn tan 2029, wedi cryfhau ein gallu ar y cyd i fonitro tensiynau, gweithio gyda phartneriaid i liniaru risgiau sy'n dod i'r amlwg, cefnogi cyrff cyhoeddus drwy hyfforddiant, a gweithredu fel sianeli dibynadwy rhwng cymunedau a gwasanaethau i hyrwyddo cyfranogiad a chyfle cyfartal.

Yn ystod y tymor hwn, fe wnaethom gyflwyno cynllun grantiau bach sydd hyd yma wedi buddsoddi mewn prosiectau ledled Cymru, wedi gwella mecanweithiau ar gyfer cydweithio, ac wedi darparu cyllid tymor hirach i gefnogi model mwy strategol a chynaliadwy i feithrin cydlyniant.

Yn dilyn Ymchwiliad y Senedd i Gydlyniant Cymdeithasol, fe wnaethom sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gydlyniant, ac rydym wedi ymgysylltu â nhw a thimau Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i ddatblygu **egwyddorion cydlyniant i ymarferwyr**.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn mentrau cenedlaethol a lleol sy'n lleihau casineb, rhagfarn a thensiynau cymunedol. Mae Canolfan Cymorth Casineb Cymru, a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr Cymru, yn cynnig cymorth cyfrinachol 24/7 i ddioddefwyr troseddau casineb, gan gynnwys gwasanaeth arbenigol i blant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â gwaith achos ac eiriolaeth, mae'r gwasanaeth yn darparu hyfforddiant cenedlaethol a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth o droseddau casineb ac i gynyddu hyder pobl i roi gwybod.

Mae ein hymgyrch genedlaethol **Mae Casineb yn Brifo Cymru** wedi cael ei chynnal droeon y tymor hwn, gan hyrwyddo rhoi gwybod a thynnu sylw at y canlyniadau cadarnhaol pan fydd dioddefwyr yn dod ymlaen. Gan ddefnyddio sianeli teledu, radio, digidol a'r tu allan i'r cartref, mae'r ymgyrch yn seiliedig ar brofiad bywyd ac erlyniadau go iawn. Fe wnaethom dargedu ardaloedd lle mae mwy o droseddau casineb, gan weithio'n agos gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol.

Yn dilyn marwolaethau trasig Harvey Evans a Kyrees Sullivan ym mis Mai 2023 a'r anrhefn a ddilynodd yn Nhrelái, fe wnaethom gomisiynu Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE) i gydlynu'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Trelái a Chaerau. Cafodd hyn ei siapio drwy lawer o wrando a chydgynhyrchu cymunedol, dan oruchwyliaeth Grŵp Llywio Cymunedol o drigolion lleol. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ymrwymiadau mwy diweddar wedi'u targedu yn Llanelli ac mewn mannau eraill.

Rydym wedi datblygu adnoddau newydd i wella ymatebion i densiynau ac i gasineb. Mae ein Fframwaith Ymateb Cydlyniant Cymunedol newydd yn helpu i adnabod, i asesu ac i ymateb yn fwy cywir i ddigwyddiadau yn Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom ddatblygu Pecyn Cymorth Camwybodaeth i Randdeiliaid er mwyn helpu arweinwyr cymunedol i fynd i'r afael â gwybodaeth niweidiol.

Rydym wedi cyllido hyfforddiant i gynghorwyr ac i staff cynghorau ar fygythiadau camwybodaeth a thwyllwybodaeth, ac wedi datblygu adnodd i helpu sefydliadau'r trydydd sector i amddiffyn eu hunain rhag casineb ac aflonyddu.

Rydym yn parhau i gefnogi addysg a chofio'r Holocost drwy gyllido Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost i gyflogi gweithiwr cymorth sy'n hyrwyddo cofio yn y gymuned ledled Cymru, gan atgyfnerthu ymwybyddiaeth o ganlyniadau casineb a rhagfarn heb eu herio. Mae ein Fforwm Cymunedau Ffydd, sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, a sefydlwyd yn wreiddiol ar ôl 911, yn cyfarfod bob chwarter ac yn fforwm i drafod materion sy'n effeithio ar gymunedau ffydd a chred yng Nghymru.

# 4. Mudo a Noddfa

Dros dymor y llywodraeth hon, rydym wedi buddsoddi cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisi Mudo a Chenedl Noddfa. Mae cyfran fawr o'r cyllid wedi canolbwyntio ar gymorth i Wcreiniaid yng Nghymru, yn dilyn yr ymosodiad llawn ar Wcráin ym mis Chwefror 2022.

Ers 2024, mae egwyddorion, nodau a chamau gweithredu'r polisi Cenedl Noddfa wedi cael eu nodi'n llawn ym mhennod Cenedl Noddfa Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n sicrhau ein bod yn cynnal ffocws y llywodraeth gyfan ar urddas, cynhwysiant, tosturi a chydlyniant cymdeithasol.

Rydym wedi gwreiddio 'integreiddio o'r diwrnod cyntaf' fel egwyddor graidd — sicrhau bod pobl sy'n ceisio noddfa yn gallu cael gafael ar gymorth, gwybodaeth a chyfleoedd ar unwaith ar ôl cyrraedd; lleihau niwed, hyrwyddo annibyniaeth a helpu unigolion i setlo'n ddiogel.

## Yr Ymateb i Sefyllfa Wcráin

Mae Cymru wedi croesawu tua 8,000 o Wcreiniaid i'r DU ers yr ymosodiad llawn ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn cynnwys mwy na 3,300 dan lwybr Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru a mwy na 4,600 i noddwyr aelwydydd Cartrefi i Wcráin.

Sefydlwyd llety cychwynnol dros dro i groesawu gwesteion wrth iddynt gyrraedd o Wcráin ac i gynnig y cymorth iawn iddynt i sicrhau eu bod yn gallu dechrau gwneud bywyd newydd yng Nghymru.  At ei gilydd roedd awdurdodau lleol wedi symud mwy na 2,400 o westeion ymlaen o'n llety cychwynnol, gan eu galluogi i fyw'n fwy annibynnol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gallu cau ein hystad llety cychwynnol yn gynt na'r disgwyl, ym mis Gorffennaf 2024..

Fe wnaethom gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cymorth cofleidiol i newydd-ddyfodiaid o Wcráin, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd, addysg, cymorth cyflogaeth, dosbarthiadau iaith, a gweithgareddau integreiddio cymunedol, gyda'r nod o gefnogi integreiddiad llwyddiannus i'n cymdeithas.

Fe wnaethom sefydlu'r Tasglu Symud Ymlaen Cenedlaethol i ddarparu cymorth a chyngor symud ymlaen gweithredol i awdurdodau lleol eraill sydd â llety cychwynnol; roedd y gwasanaeth hwn, a ddarparwyd gan Gyngor Sir Blaenau Gwent, yn allweddol o ran cefnogi symud ymlaen ledled Cymru a'n galluogi i gau'r ystad llety cychwynnol.  Mae'r Gwasanaeth Cynghori Cenedlaethol yn dal i ddarparu llety a chymorth symud ymlaen i'r ychydig iawn o Wcreiniaid sy'n cyrraedd Cymru, a chymorth a chyngor i awdurdodau lleol sy'n cefnogi Wcreiniaid sydd wedi ymgartrefu yn ein cymunedau.

I gydnabod y pwysau cynyddol ar wasanaethau lleol o ganlyniad i'r ymateb i sefyllfa Wcráin, yn enwedig tai a llety, ers mis Mawrth 2023 rydym wedi darparu £14m ychwanegol i awdurdodau lleol Cymru i gefnogi Wcreiniaid mewn llety sefydlog ac i atal digartrefedd i bob carfan arall sydd angen cymorth atal

digartrefedd. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i gyfyngu i unrhyw grŵp neu ddemograffeg benodol.

Ni fyddai ein hymateb i sefyllfa Wcráin wedi bod yn bosibl heb ddull gweithredu "Tîm Cymru", lle ddaeth cynghorau lleol, y trydydd sector, y GIG a Llywodraeth Cymru at ei gilydd mewn ymdrech ar y cyd i sefydlu'r trefniadau a'r gwasanaethau ar gyfer Wcreiniaid sy'n ffoi rhag y gwrthdaro.

Mae'r dull aml-asiantaeth hwn wedi parhau ar ffurf Bwrdd Trosolwg Strategol Cenedl Noddfa yr wyf yn ei gyd-gadeirio ochr yn ochr â llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar fudo, ac mae'n cynnwys uwch arweinwyr o bob rhan o'n sector cyhoeddus a phartneriaid allweddol.

## Adsefydlu a Llety

Roedd Llywodraeth Cymru yn rhan annatod o'r ymateb aml-asiantaeth i gefnogi dinasyddion Affganistan yr oedd angen iddynt adael eu gwlad ar frys yn 2021, a buom yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n hawdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod llety a chymorth cychwynnol ar gael i'r rhai a gafodd eu lleoli yng Nghymru. Rydym wedi parhau i gefnogi Rhaglen Adsefydlu Affganiaid Llywodraeth y DU, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n chwarae ei rhan deg.

Drwy ein llwybr Uwch-noddwr Cartrefi i Wcráin a chefnogaeth y Rhaglen Adsefydlu Affganiaid yng Nghymru, rydym wedi dangos y gwerth ychwanegol y gall Llywodraeth ddatganoledig ei gynnig i'r meysydd polisi hyn.

Rydym yn cefnogi cynlluniau'r Swyddfa Gartref i ystyried cynlluniau peilot ar gyfer atebion tai mwy cost-effeithiol a chynaliadwy i geiswyr lloches. Rydym yn parhau i eirioli dros wasgaru ledled Cymru, gan osgoi dibyniaeth ar lety ar raddfa fawr, ac rydym yn pwyso am ddatblygu cynlluniau mewn cydweithrediad agos â phartneriaid lleol, gan sicrhau cydlyniant cymunedol ac integreiddio effeithiol.

## Cymorth ac Integreiddio

Rydym wedi cryfhau Gwasanaeth Noddfa Cymru i gefnogi mudwyr a cheiswyr noddfa i gael gafael ar gyngor a chymorth cyfreithiol, arfer eu hawliau a lleihau'r risg o amddifadedd. Mae'r Gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gonsortiwm amlasiantaethol, gan sicrhau mynediad cyson at gyngor arbenigol ac eiriolaeth ledled Cymru.

Rydym wedi cynyddu'r mynediad at gymorth iaith Saesneg (ESOL) drwy ein Hybiau REACH+, sydd wedi bod yn bwynt cyswllt canolog i unrhyw un sy'n dymuno cael gafael ar ESOL mewn pedwar rhanbarth yng Nghymru, gan gynnig asesiad, arweiniad a chysylltiad â'r ddarpariaeth ESOL iawn.

Mae cyflogaeth yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o helpu mudwyr i integreiddio, hwyluso'r broses o bontio i fyw'n annibynnol, a chefnogi eu hannibyniaeth gyffredinol. Rydym wedi gwella llwybrau integreiddio proffesiynol, gan gynnwys cymorth i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches drwy gynllun Meddygon sy'n Geiswyr Lloches ac yn Ffoaduriaid Cymru (WARD), gan alluogi meddygon a meddygon

ymgynghorol cymwysedig i barhau i ymarfer yn y GIG. Rydym hefyd wedi cryfhau a gwella mynediad at blatfformau cyflogaeth a rhaglenni ail-achredu i geiswyr noddfa mewn proffesiynau gan gynnwys y gyfraith, peirianneg a gofal iechyd.

Ers 2022 rydym wedi ariannu'r Gwasanaeth Integreiddio Aduno Teuluoedd sy'n cefnogi llwybr diogel a chyfreithiol i bobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i ariannu'r math hwn o wasanaeth, ac rwy'n falch bod gwledydd eraill wedi gwneud yr un fath yn dilyn ei lwyddiant.

### Y Fframwaith Integreiddio Mudwyr

Yn 2023, fe wnaethom gyhoeddi **Fframwaith Integreiddio Mudwyr Cymru** sy'n ceisio helpu sefydliadau yng Nghymru i ddeall a yw mudwyr a chymunedau sy'n lletya wedi'u hintegreiddio'n dda, drwy gynnwys dulliau i gefnogi integreiddio ar draws sawl maes bywyd. Mae'r gwaith o weithredu'r Fframwaith yn mynd rhagddo'n dda, ac mae eisoes wedi arwain at ansawdd data gwell ar draws gwaith, tai, iechyd, addysg, cyflogaeth a llesiant.

### Mudo a Gynlluniwyd a Dinasyddion yr UE

Ers 2021, rydym wedi darparu gyllid i gefnogi dinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r cyllid hwn wedi darparu mynediad at gymorth a chyngor ar hawliau dinasyddion, gan gynnwys cyngor arbenigol ar fewnfudo, a chymorth i wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys cymorth arbenigol i ddinasyddion yr UE sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i gymorth, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn defnyddio eu hawliau.

Gan gydnabod y materion sy'n wynebu'r sector Cymorth Cyfreithiol ac i sicrhau mynediad at gyngor cyfreithiol ar fewnfudo yng Nghymru, ers 2024 rydym wedi darparu cyllid i gefnogi darparwyr cyngor cyfreithiol ar fewnfudo i gyflawni prosiectau sydd â'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth gyfreithiol ar fewnfudo ar unwaith ac yn yr hirdymor yng Nghymru.

Yn 2024, fe wnaethom gyflwyno'r Rhaglen Doniau wedi'u Dadleoli gyntaf yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar sgiliau gwyrdd sy'n cefnogi blaenoriaethau a chydweithio trawslywodraethol. Fe wnaethom hefyd ymateb yn gyflym i benderfyniad Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2025 i beidio â derbyn rhagor o geisiadau tramor newydd am rolau gofal cymdeithasol.

# 5. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dros dymor y Senedd hon (2021-2026) rydym wedi dyrannu tua £53 miliwn o'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol i gyflawni amcanion y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2022-2026). Nid yw hyn yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd mewn Prif Grwpiau Gwariant eraill ar weithgareddau uniongyrchol neu ategol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Roedd ein **Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** (2022-2026) yn dangos sut byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae ein strategaeth genedlaethol yn cynnwys chwe amcan, sy'n seiliedig ar egwyddorion; dull cymdeithas gyfan; mynd i'r afael â thrais gan ddynion; dealltwriaeth gynhwysfawr o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; dull gweithredu yn seiliedig ar gydraddoldeb; llais goroeswyr; dull iechyd y cyhoedd; dull gweithredu wedi ei lywio gan drawma; a chydweithio a chydgynhyrchu. Rydym yn cyhoeddi **adroddiadau cynnydd** ar gyflawni'r strategaeth ac ar ein dull gweithredu Glasbrint. Mae'r gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools. Mae dull gweithredu'r Glasbrint yn dod â phartneriaid at ei gilydd i gyflawni chwe ffrwd waith y Glasbrint: aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus, aflonyddu yn y gweithle, mynd i'r afael â chyflawni trais, dull system gyfan cynaliadwy, anghenion pobl hŷn ac anghenion plant a phobl ifanc.

## Gwasanaethau i ddioddefwyr

Rydym wedi ariannu a chefnogi gwasanaethau ledled Cymru i barhau i ddarparu cymorth hanfodol i ddioddefwyr, dal cyflawnwyr i gyfrif a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr naill ai drwy fod yn dyst i gam-drin domestig gartref, neu sydd wedi dioddef camfanteisio neu faterion cymhleth ychwanegol.

Mae ein cyllid grant craidd i bob un o'r 6 rhanbarth ledled Cymru yn eu galluogi i fynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol sy'n cynnwys gwasanaethau i ddioddefwyr, rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, ymgyrchoedd cyfathrebu lleol a rolau gweithwyr allweddol.  Rydym yn parhau i gefnogi gweithgareddau sefydliadau trydydd sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac rydym wedi darparu cymorth ychwanegol. Mae hyn wedi cynnwys ariannu gweithwyr allweddol penodol i ddarparu mynediad at gymorth arbenigol i bobl heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais Rhywiol.

## Agweddau'r cyhoedd

Mae ein hymgyrch "Iawn" wedi cyrraedd mwy na 380,000 o ddynion a bechgyn, ac mae wedi hyrwyddo modelau rôl cadarnhaol a herio ymddygiad niweidiol. Fe wnaethom ehangu ein Sound Squad o ddynion sy'n gynghreiriaid a chyflwyno ymgyrch yn 2025 a oedd yn tynnu sylw at aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus. Mae mwy na 1,000 o bobl wedi cwblhau ein hyfforddiant cenedlaethol Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol. Roedd Cymorth i Ferched Cymru wedi helpu i ddarparu'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, gan ddelio â 28,137 o ymholiadau yn 2024–25 a mwy na 134,000 yn ystod tymor y Senedd hon. Cyflwynwyd ymgyrchoedd effeithiol i helpu unigolion i adnabod arwyddion cam-drin, deall sut mae cael gafael ar gymorth drwy linell gymorth Byw Heb Ofn, a hyrwyddo diogelwch, parch a chydraddoldeb mewn perthnasoedd.

## Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

Rydym wedi cryfhau gallu'r gweithlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus drwy arfogi miloedd o weithwyr proffesiynol rheng flaen ar draws iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a phlismona i adnabod camdriniaeth, i ymateb yn ddiogel, ac i ddarparu cymorth sy'n ystyriol o drawma.

## Llais y Goroeswr

Gan weithio gyda Chynghorwyr Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, fe wnaethom sefydlu panel craffu a chynnwys llais goroeswyr i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau bywyd go iawn goroeswyr wrth galon ein gwaith ni a gwaith y Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Rydym wedi comisiynu Cymorth i Ferched Cymru i fapio'r fforymau llais plant sydd ar gael yng Nghymru, yr ardal ddaearyddol, y pynciau dan sylw ac a oes cymhelliant i gymryd rhan. Mae'r gwaith hwn yn sail i ymgysylltiad y Glasbrint â phlant a phobl ifanc ac i wneud argymhellion ar gyfer y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y dyfodol.

## Arweinyddiaeth

I nodi 10 mlynedd o'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, fe wnaethom gynnal uwchgynhadledd sector cyhoeddus yn 2025 i bwysleisio cyfrifoldeb arweinwyr wrth fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd. Roeddem hefyd wedi cynnal cynadleddau aflonyddu yn y gweithle ledled Cymru a chomisiynu gwaith ar fforymau llais plant ac ar ymyriadau effeithiol gyda chyflawnwyr er mwyn cyfrannu at bolisïau yn y dyfodol.

## Cyflawni

Comisiynwyd Prifysgol De Cymru i gynnal darn o ymchwil ar effeithiolrwydd ymyriadau gyda chyflawnwyr. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar nodi arferion gorau i ddiffinio ac i fesur effeithiolrwydd ymyriadau gyda chyflawnwyr a bydd yn sail i ddatganiad sefyllfa ffrwd waith. Bydd yr ymchwil yn sail i ddatblygu datganiad sefyllfa Glasbrint ar fesur effeithiolrwydd ymyriadau gyda chyflawnwyr.

## Atal ac Ymyrryd yn Fuan

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn atal mewn ysgolion drwy'r prosiect Sbectrwm a Phrosiect Cwtch. Yn 2024–25, roedd Sbectrwm wedi ymgysylltu â 40,860 o ddisgyblion dros 3,040 o sesiynau, ochr yn ochr â 2,855 o staff, i gryfhau'r ddealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cydlynwyr awdurdodau lleol yn datblygu deunyddiau cymorth newydd i'w darparu o 2026 ymlaen.

## Rhaglen Cyllid Cyfalaf

Ers 2022, buddsoddwyd £12m mewn eiddo newydd ac wedi'i ailwampio, lleoedd mewn llochesi, amgylcheddau therapiwtig, offer TG, ac ardaloedd chwarae i blant. Mae rhanbarthau hefyd wedi defnyddio cyllid arloesi i gefnogi prosiectau ymyrryd yn gynnar, yn bennaf i blant a phobl ifanc

# 6. Y Trydydd Sector a Gwirfoddoli

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'n fawr rôl y trydydd sector o ran darparu gwasanaethau a grymuso cymunedau ledled Cymru. Rydym wedi parhau â'n perthynas gref â'r trydydd sector drwy weithio'n agos gyda'n partneriaid yn y trydydd sector i wella'r amgylchedd maent yn gweithredu ynddo drwy gyd-ddatblygu Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a Dull Newydd o Wirfoddoli. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws iddynt chwarae eu rhan hanfodol, yn enwedig mewn meysydd atal.

## Cefnogaeth i'r Trydydd Sector

Mae Cynllun y Trydydd Sector wedi creu strwythur cefnogi unigryw. Mae hyn yn cynnwys Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip. Mae hefyd yn cynnwys Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sy'n cefnogi sefydliadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r pedwar Cyngor Gwirfoddol Sirol ar bymtheg ledled Cymru yw ei aelodau.

Rhwng 2025-28, er enghraifft, bydd Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn cael £25.8m o gyllid (cynnydd o 7% ar eu llinell sylfaen ariannu flaenorol) fel rhan o gytundeb cyllido tair blynedd er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu model cymorth sy'n seiliedig ar anghenion, gan ganolbwyntio ar y mudiadau gwirfoddol hynny sy'n gweithio gydag ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Rhwng 2021/22 a 2024/25, mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru wedi darparu'r cymorth canlynol:

- Cymorth Cyllid Cynaliadwy – 22,000 awr o gefnogaeth drwy 29,000 o ryngweithiadau, gan arwain at ddyrannu mwy na £72m o gyllid.
- Gwirfoddoli - 13,000 awr o gefnogaeth i bron i 3,800 o fudiadau, gan alluogi mwy na 5,200 o wirfoddolwyr i roi cynnig ar gyfleoedd gwirfoddoli. Ar ben hynny, yn ystod y cyfnod hwn, roedd bron i 14,700 o bobl wedi cofrestru ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli
- Llywodraethiant Da – mwy na 20,000 awr o gefnogaeth drwy 19,000 o ryngweithiadau i bron i 5,000 o fudiadau

Nod rhaglen Newid yw gwella gallu digidol y sector gwirfoddol yng Nghymru. Gan weithio'n agos gyda'i bartneriaid (CGGC, Cwmpas, Promo Cymru) a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, mae'r rhaglen hon wedi arwain at 406 o ymyriadau ar draws cytundeb cyllido tair blynedd 2023-2026. Mae'r cam diweddaraf hwn wedi llwyddo i wneud y canlynol:

- Dyfarnu 15 grant yn 24/25 gyda 30 o geisiadau ar gyfer 25/26
- Darparu 50 o weithgareddau cefnogi
- Datblygu 32 prototeip digidol

- 1008 awr o fentora

## Credydau Amser

Rydym wedi cefnogi rhaglen Credydau Amser Tempo sy'n adeiladu rhwydweithiau lleol a chenedlaethol drwy wirfoddoli a defnyddio credydau amser gydag amrywiaeth o fusnesau lleol a chenedlaethol a mudiadau partner. Mae Tempo yn gweithio gydag amrywiaeth o fudiadau i hwyluso ei grwpiau cymunedol a'i bartneriaid i dyfu ac i ddatblygu. Mae hefyd yn helpu gwirfoddolwyr i ddod o hyd i gyfleoedd newydd a chael cydnabyddiaeth am eu cyfraniad gwerthfawr.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf o gyllid 2023-2026, mae'r rhaglen hon wedi datblygu rhwydwaith o 301 o grwpiau ledled Cymru, sy'n cynnwys 6,404 o wirfoddolwyr sydd wedi ennill bron i 170,000 o gredydau amser. Roedd arolwg diweddar wedi datgelu bod 74% o bobl yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at y gymuned a phobl arall, roedd 64% yn teimlo'n llai ynysig ac unig ac roedd 64% yn teimlo bod eu hiechyd meddwl wedi gwella.

## Cronfeydd elusennol segur

Ymddiriedolaeth Adfywio **-** Yn 2021-2023 roedd ychydig bach o gyllid (tua £200k) wedi cael ei roi i'r Comisiwn Elusennau er mwyn iddo allu targedu elusennau yng Nghymru sydd wedi bod yn segur neu'n aneffeithiol. Roedd y gwaith dros bedair blynedd hyd at fis Mawrth 2025 wedi adfywio cronfeydd gwerth dros £10m, naill ai drwy gael yr elusennau i benodi ymddiriedolwyr newydd a dechrau gweithio eto, trosglwyddo arian i elusen debyg sy'n weithredol, neu drosglwyddo arian i Sefydliad Cymunedol Cymru i reoli dod yn rhan o'u gweithgareddau cyllido.

## Cyfleusterau Cymunedol

Mae ein Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gronfa grant cyfalaf sy'n darparu grantiau ar ddwy lefel, hyd at £25,000 a hyd at £300,000 i gefnogi cymunedau i brynu a gwella cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio'n helaeth ac sydd wir eu hangen. Yn ystod y deng mlynedd ers ei sefydlu, mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol wedi darparu gwerth dros £72m o grantiau i fwy na 530 o gyfleusterau cymunedol unigryw ledled Cymru. Mae wedi darparu mwy na £41m o'r grantiau hyn yn ystod pum mlynedd tymor presennol y Senedd.

Mae'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol yn gronfa fenthyciadau gwerth £7.5m ac mae CGGC yn ei gweithredu ar ein rhan. Mae'n darparu benthyciadau hirdymor (hyd at 25 mlynedd) o hyd at £300,000 i helpu grwpiau cymunedol corfforedig i brynu a gwella asedau cymunedol. Ers ei lansio yn 2022 mae'r gronfa benthyciadau asedau cymunedol wedi darparu mwy na 40 o fenthyciadau, gan roi cyfanswm o bron i £6 miliwn i fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru. Mae'n disgwyl i'r ymrwymiadau godi i £7.5m cyn diwedd mis Mawrth 2026.

# 7. Cyfiawnder Troseddol

Nid yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Gymru ar hyn o bryd, ond yn ymarferol mae gwasanaethau datganoledig fel iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a llety yn chwarae rhan bwysig yng ngweithrediad y system cyfiawnder troseddol.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder troseddol yw dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu ac yn cefnogi pobl sydd mewn perygl o droseddu i fyw bywydau boddhaus heb droseddu. Mae'r dull gweithredu hwn yn gallu atal troseddu yn y lle cyntaf.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau datganoledig yn deg ac yn gyfartal er mwyn i bawb yn y system cyfiawnder troseddol gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywydau llwyddiannus heb droseddu.

Ynghyd â sicrhau bod y system gyfiawnder yn gweithio yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio ar y cyd â phartneriaid a gedwir yn ôl, i wella'r system gyfiawnder ac i hyrwyddo fersiwn Gymreig o gyfiawnder troseddol. Mae'r gwaith hwn yn gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n aml yn agored iawn i niwed sy'n rhan o'r system gyfiawnder, gan helpu i gadw pobl yng Nghymru yn ddiogel a helpu'r rhai sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder i ymatal rhag troseddu.

Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

- Cydlynu gwaith gyda Llywodraeth y DU ar y Glasbrint Cyfiawnder Menywod arloesol a'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, i wella canlyniadau i fenywod ac i blant sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder.
- Darparu goruchwyliaeth strategol i weithredu polisi sy'n ceisio atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc yng Nghymru, fel cyd-gadeirio Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru.
- Gwella'r rhyngwyneb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlismona yng Nghymru. Mae Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn parhau i fod yn fforwm gwerthfawr ar gyfer bwrw ymlaen â'n gwaith ar y cyd ac i gryfhau ein gweithio mewn partneriaeth ymhellach. Fel Cadeirydd, rwy'n gweithio gyda Phrif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu o bob cwr o Gymru i ystyried a gweithredu ar y blaenoriaethau strategol allweddol sy'n effeithio ar ddiogelwch cymunedau Cymru i atal troseddu a diogelu cymunedau rhag niwed.

Y Glasbrint Cyfiawnder Menywod

Mae’r Glasbrint Cyfiawnder Menywod yn fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Phlismona yng Nghymru, gyda phartneriaid eraill fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a phartneriaid trydydd sector yn chwarae rhan agos. Mae’r Glasbrint hwn yn dangos yr hyn gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn cydweithio ac mae wedi cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ers ei sefydlu yn 2019, o fentrau fel Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ac Ymweld â Mam, i waith ymgysylltu â dedfrydwyr a sefydlu cynlluniau atal ledled Cymru gyfan.

Mae’r Glasbrint wedi symud ymlaen i gam newydd ers mis Ebrill 2025, gan adeiladu ar y fframwaith a’r egwyddorion presennol i barhau i wreiddio’r arferion gorau yn y system gyfiawnder i fenywod yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy sicrhau bod y ffyrdd o weithio ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y maes pwysig hwn yn parhau a bod y Glasbrint yn sail i fusnes fel arfer i gefnogi anghenion penodol menywod.

## Y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

Mae’r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn fenter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Plismona yng Nghymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid yn y trydydd sector sy’n chwarae rhan agos.

Mae’r Glasbrint hwn yn dangos manteision gweithio mewn partneriaeth ac mae wedi sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ers ei sefydlu yn 2019, gan gynnwys darparu hyfforddiant sy’n ystyriol o drawma i fwy na 300 o ymarferwyr cyfiawnder yng Nghymru a chefnogi ehangu Rheoli Achosion Uwch i holl Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Mae’r dull amlasiantaeth hwn, sy’n cael ei arwain gan seicoleg, yn cydnabod y trawma mae pobl ifanc wedi’i brofi ac yn canfod sut mae eu helpu i feithrin y gwydnwch sydd ei angen arnynt i ffynnu ac i fyw bywydau di-drosedd.

Mae’r Glasbrint wedi symud ymlaen i gam newydd ers mis Ebrill 2025, gan adeiladu ar y fframwaith a’r egwyddorion presennol i barhau i wreiddio’r arferion gorau yn y system gyfiawnder i bobl ifanc yng Nghymru. Roedd cyhoeddi’r Fframwaith Atal ym maes Cyfiawnder Ieuenctid ar 17 Mehefin 2025 yn rhoi un darlun o’r hyn sy’n gweithio i atal troseddu, a sut rydym yn cefnogi plant agored i niwed tuag i fyw bywydau boddhaus heb droseddu.

## Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gyson yng Nghymru i ategu’r setliad plismona a gedwir yn ôl, gan gydnabod eu rôl hanfodol yn hyrwyddo diogelwch ac yn ymgysylltu â’r gymuned. Rydym yn falch o’r partneriaethau rydym wedi’u meithrin gyda phartneriaid plismona ac rydym yn parhau i gydweithio i gyflawni’r diben a rannwn sef diogelu Cymru a gwasanaethu ein cymunedau.

Mae'r cyllid yn fwy na'r hyn y byddai'r heddluoedd yn ei gael fel arfer. Mae'n fuddsoddiad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i ddiogelwch cymunedau Cymru ac mae'n dangos bod plismona cymunedol yn bwysig iawn i ni, er bod cyfiawnder troseddol yn fater a gedwir yn ôl.

Cafodd y cyllid ei gynnal ar £16 miliwn yn 2025-26, gan gefnogi tua 344 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae cyllideb ddrafft 26-27 yn rhoi cynnydd pellach o 2.2%. Disgwylir i'r heddluoedd ddarparu arian cyfatebol ar gyfer swyddi ychwanegol, gan sicrhau presenoldeb parhaus mewn cymunedau.

## Datganoli Cyfiawnder

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw bod plismona a chyfiawnder yn ei gyfanrwydd yn cael ei ddatganoli. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ac eraill i sicrhau'r camau nesaf er mwyn gallu gwireddu hyn. Mae cyflawni newid mor fawr â hyn yn galw am ddull gweithredu pragmatig cam wrth gam.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i edrych ar yr opsiynau cychwynnol lle gellid datganoli cyfrifoldebau yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth strategol, trefniadau partneriaeth a llywodraethiant a chyllido gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fel mannau cychwyn. Mae'r meysydd hyn yn gamau cyntaf rhesymegol ac ymarferol, a fydd yn golygu bod modd integreiddio a chydlynu'r gwaith o ddarparu polisïau a gwasanaethau yn well, ac yn gwella atebolrwydd ac effeithlonrwydd.

Rydym yn dechrau datganoli gwasanaethau prawf gyda memorandwm cyd-ddealltwriaeth, ac mae'r hyn a ddysgwyd o'r dull gweithredu ym Manceinion Fwyaf yn helpu i lywio'r gwaith hwn. Bydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn creu cyfleoedd ar gyfer mwy o gysondeb a chydweithio wrth ddarparu gwasanaethau prawf a gwasanaethau cysylltiedig.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU am ddiddymu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Papur Gwyn arfaethedig ar Ddiwygio'r Dirwedd Heddlu wedi agor y drws i adolygu systemau llywodraethiant yr heddlu yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod bod angen dull penodol o blismona ar Gymru, ac maent yn gweithio'n adeiladol gyda ni a phartneriaid yng Nghymru i ddatblygu model pwrpasol o lywodraethiant heddlu ar gyfer Cymru.

# 8. Defnydd o dystiolaeth

Dros dymor y Senedd, mae ein rhaglen ddadansoddol wedi defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau dadansoddi i lywio'r gwaith o ddatblygu, cyflawni a gwerthuso polisïau ar draws y portffolio. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu fframweithiau monitro i fesur cynnydd yn erbyn nodau polisi; casglu data ar brofiad bywyd; defnyddio tystiolaeth sydd eisoes ar gael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau; comisiynu ymchwil sylfaenol i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth; a chynnal gwerthusiadau amlflwyddyn ar raddfa fawr i asesu gweithrediad ac effaith polisïau a rhaglenni.

## Yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

Mae gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth cydraddoldeb wedi bod yn ffocws allweddol yn ystod y tymor hwn. Sefydlwyd yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (yr Unedau) ym mis Ionawr 2022 fel ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yn dilyn sawl adroddiad allweddol a oedd yn dangos bod COVID-19 wedi cael effaith fwy ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

Ers sefydlu'r Unedau maent wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr polisi a dadansoddol ar draws Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid ledled Cymru a gweddill y DU. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y dystiolaeth am unigolion â nodweddion gwarchodedig a nodweddion cysylltiedig er mwyn inni lwyr ddeall y lefel a'r mathau o anghydraddoldeb ledled Cymru.

Mae llawer o'r gwaith a gyflawnir yn drawsbynciol. Mae'n gwella'r sylfaen dystiolaeth cydraddoldeb ar draws meysydd portffolio ac yn cefnogi gofynion Llywodraeth Cymru o dan y fframwaith deddfwriaethol trosfwaol sy'n cynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae'r Unedau'n cyhoeddi eu hallbynnau a'u cynnydd ar eu **tudalen we** yn rheolaidd, lle mae'r holl allbynnau mewn un lle.

Dros y cyfnod hwn, mae'r Unedau wedi cyflwyno sawl darn o dystiolaeth a dadansoddiadau sydd wedi helpu i wella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth am gydraddoldeb. Er enghraifft:

- **Hil:** mae'r Unedau wedi darparu cymorth dadansoddol ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Maent wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ar is-grŵp tystiolaeth Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddatblygu dull cynhwysfawr i werthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; wedi cyhoeddi'r **fframwaith mesur effaith**; wedi datblygu dangosfwrdd mewnol i gefnogi dealltwriaeth o effeithiau; ac wedi comisiynu prosiectau profiad bywyd ar faterion sy'n wynebu cymunedau ethnig leiafrifol. Mae gwerthusiad o broses ac effeithiau cynnar Cynllun Gweithredu Cymru

Wrth-hiliol wrthi'n cael ei gomisiynu a bydd yn cael ei ddyfarnu erbyn diwedd y tymor.

- Anabledd: mae'r Unedau wedi cyd-gynhyrchu a **chyhoeddi ymchwil** gydag aelodau'r Tasglu Anabledd ar y cynllun cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd a chanolfan genedlaethol byw'n annibynnol. Maent wedi cyhoeddi **adroddiadau ar rwystrau rhag cael cyflogaeth** ar gyfer pobl anabl ac maent yn datblygu **dull o gasglu data ar y model cymdeithasol o anabledd**. Yn fwy diweddar, maent wedi cynllunio dull gwerthuso ar gyfer y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

- **LHDTC+:** cyhoeddodd yr Unedau'r **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: Asesiad Gwerthusadwyedd**, sydd wedi cyfrannu at gomisiynu gwerthusiad o broses ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cynllun gweithredu LHDTC+ a fydd yn cael ei gyflawni yn 2027.

- Prosiectau trawsbynciol: gan gynnwys **adolygiad** o ffynonellau ac allbynnau data cydraddoldeb Llywodraeth Cymru; **adolygiad** o amrywiaeth yng ngweithlu ac ar fyrddau'r sector cyhoeddus yng Nghymru; a chyfuniadau cydraddoldebau gan gynnwys crynodeb blynyddol ar lefel facro ar gyfer blaenoriaethau allweddol y Prif Weinidog ar y nodweddion gwarchodedig a gwybodaeth groestoriadol i lywio penderfyniadau gwario'r Cabinet.

## Gwerthusiadau

Mae gwerthuso yn ganolog er mwyn defnyddio tystiolaeth yn effeithiol ar draws y portffolio, ac yn ein helpu i ddeall canlyniadau polisïau a rhaglenni, a dysgu gwersi o weithredu.

Er enghraifft, ochr yn ochr â'r Peilot Incwm Sylfaenol cafwyd **gwerthusiad annibynnol**, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd gyda phartneriaid ym Mhrifysgol Rhydychen, Prifysgol Caerefrog, Coleg y Brenin Llundain, a Phrifysgol Northumbria. Caiff ei gryfhau drwy ymgorffori cydgynhyrchu gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n helpu i siapio'r gwerthusiad. Bydd y gwerthusiad yn parhau tan 2027, pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol.

Gwerthuswyd y rhaglen Cymunedau Digidol Cymru a defnyddiwyd y **canfyddiadau** i helpu i siapio ac i gyfrannu at Gynhwysiant Digidol Cymru – dull gweithredu newydd Llywodraeth Cymru at gynhwysiant digidol, a gafodd ei lansio ym mis Mai 2025.

Gofyn a Gweithredu – rhan greiddiol o'n fframwaith hyfforddi cenedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol rheng flaen i adnabod ac i gefnogi pobl sy'n mynd drwy Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – cafodd

hwn ei **werthuso** yn 2022. Roedd hyn wedi arwain at ganfyddiadau ac argymhellion a gafodd eu defnyddio i wella'r rhaglen hyfforddi hon.

### Adolygiadau o dystiolaeth, casglu a dadansoddi data

Yn ogystal â gwerthusiadau, cynhaliwyd amrywiaeth o waith ymchwil a dadansoddi ar draws y portffolio i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a deall 'beth sy'n gweithio'.

Er enghraifft, mae adolygiadau o dystiolaeth a dadansoddi data wedi cael eu cynnal ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys **arferion gorau Undebau Credyd**; tirwedd data Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; dadansoddi data monitro ar gyfer y **Gronfa Cymorth Dewisol**; ac adolygu tystiolaeth sy'n ymwneud â chyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Maes pwysig arall yw'r ymchwil i sut gellid bwrw ymlaen â datganoli gweinyddu nawdd cymdeithasol yng Nghymru i Lywodraeth Cymru. Disgwylir i'r canfyddiadau fod ar gael cyn diwedd y tymor presennol.

Rydym yn parhau i ariannu hwb i sampl Cymru o'r Arolwg o Adnoddau Teulu. Bydd hyn yn gwella ansawdd data a'r potensial ar gyfer dadansoddiadau o amcangyfrifon sy'n ymwneud ag incwm ac amgylchiadau teuluoedd ar gyfer Cymru, gan gynnwys ystadegau tlodi.

Ym mis Tachwedd 2025, fe wnaethom gyhoeddi argraffiad wedi'i ddiweddaru o **Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)**. Dros ddau ddegawd ers cyflwyno MALlC mae'n dal i gael ei ddefnyddio fel adnodd ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio cynllunio, dyrannu cyllid, targedu daearyddol, monitro a dadansoddi.

Ym mis Chwefror 2025 fe wnaethom gyhoeddi **Cymorth i blant yr effeithir arnynt gan riant yn y carchar: ymchwil cwmpasu** a oedd yn ceisio deall y cymorth sydd eisoes ar gael i blant yr effeithir arnynt gan riant yn y carchar. Comisiynwyd rhaglen tair blynedd yn 2025 i gefnogi paratoadau i ddatganoli cyfiawnder drwy raglen ymchwil hyblyg. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a gynhyrchodd adroddiad ar **Adeiladu Gwasanaeth Prawf Cymreig**, ac mae disgwyl i ail gam y gwaith gael ei gyhoeddi cyn diwedd y tymor hwn.

### Fframweithiau monitro a thystiolaeth o brofiad bywyd

Cafodd dull cadarn o fonitro ein Strategaeth Tlodi Plant ei ddatblygu a'i **gyhoeddi yn 2024**, a chyhoeddwyd y fframwaith cyntaf wedi'i lenwi ym mis **Rhagfyr 2025**. Cafodd y dull hwn ei gefnogi drwy ymgysylltiad â'r Grŵp Cyfeirio Allanol ar y Strategaeth Tlodi Plant, a thrwy gyngor annibynnol ac adolygiad gan gymheiriaid arbenigol. Mae'r fframwaith monitro yn un o'r tair elfen i asesu ein cynnydd yn erbyn amcanion y Strategaeth Tlodi Plant:

- Mae'r **ffframwaith monitro** yn adrodd ar ddata rheolaidd a chadarn ar lefel y boblogaeth ar amrywiaeth o ddangosyddion a mesurau canlyniadau tlodi.
- Mae'r **adroddiad cynnydd polisi** yn rhoi diweddariad manwl ar effaith polisïau, camau gweithredu ac allbynnau cysylltiedig penodol.
- Mae dadansoddiad o ymatebion **profiad bywyd** tlodi plant yn rhoi gwybodaeth bwysig am sut mae polisïau a chamau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth.